GWELLIANT CYMRU IMPROVEMENT CYMRU

# Gwella Ansawdd a Diogelwch

## Strategaeth Gwelliant Cymru

2021-2026

GIG CYMRU NHS WALES
Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

improvement.cymru

# Rhagair



**Mae'n bryd i ni edrych eto ar sut rydym yn mynd ati i wella ein system gofal yng Nghymru. Symud oddi wrth raglenni gwaith gwella cenedlaethol i gefnogaeth gwella ranbarthol, wedi'i theilwra i angen lleol. Dyma ddywed ein partneriaid sydd eu hangen arnynt, tîm gwella Cymru gyfan yma i'ch cefnogi i ddeall, rheoli a goresgyn eich heriau o ran gwella. Tîm y gallwch ddibynnu arno i'ch datblygu, eich hyfforddi a'ch arwain, gan weithio mewn partneriaeth i ddarparu gwell gofal i bobl Cymru.**

Mae ein Strategaeth Gwelliant Cymru 2021-2026 newydd – Gwella Ansawdd a Diogelwch, yn amlinellu ein ffocws newydd ac yn disgrifio sut y byddwn yn cydweithio i gyflawni hyn gyda chi.

Mae pawb ohonom yn ymwybodol o sut mae'r pandemig wedi rhoi prawf ein system gofal ac wedi dod â ni at ein gilydd i achub bywydau ledled Cymru mewn modd na welwyd yn y cyfnod modern. I lawer mae wedi amlygu'r angen i edrych eto ar ddiogelwch a lleihau niwed, i'w ystyried ar draws y continwwm gofal, o fewn system gyfan gan gynnwys gofal sylfaenol, yn hytrach na'r canolbwyntio traddodiadol ar ofal eilaidd.

Nid yw hon yn dasg syml, bydd angen gwaith tîm brwd a dull strategol, pragmatig o weithio tuag at wella gyda'n gilydd, ond bydd y budd i'r system a phobl Cymru yn sylweddol. Gyda'n modd i edrych ar y darlun cyfan trwy lens gwella a'ch profiad a'ch arbenigedd lleol, gallwn gyda'n gilydd wreiddio'r ethos gwella sydd wrth galon ein system i ddarparu gwell gofal i bawb. Mae hyn yn golygu defnyddio dull sy'n canolbwyntio ar y claf i sicrhau ein bod i gyd yn derbyn y gofal iawn, yn y lle iawn, ar yr adeg iawn.

Dyma ein ffocws yn Gwelliant Cymru: eich cefnogi i reoli ar gyfer ansawdd a diogelwch ar draws maes gofal yng Nghymru, eich cefnogi i wreiddio'r Ddeddf Ansawdd a'ch cefnogi i gyflawni'r blaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer GIG Cymru a amlinellwyd gan Lywodraeth Cymru.

Er mwyn helpu sefydliadau i gyflawni hyn rydym yn lansio ein rhaglen newydd: 'Gofal Diogel Gyda'n Gilydd', sy'n cynnig cefnogaeth bwrpasol i sefydliadau i nodi a gwella blaenoriaethau o ran ansawdd a diogelwch, wedi'i hategu gan waith ehangach Gwelliant Cymru. Gall unrhyw fwrdd iechyd neu ymddiriedolaeth sydd eisiau ein cefnogaeth ymuno â'r rhaglen Gofal Diogel Gyda'n Gilydd ac edrychwn ymlaen at weithio gyda chi.

Diolch i chi am dreulio amser yn darllen ein strategaeth. Byddwn yn darparu diweddariadau rheolaidd am ein cynnydd, felly cofiwch ddychwelyd i weld y datblygiadau ac i rannu eich barn.

**Yr Athro John Boulton**

Cyfarwyddwr Gwelliant Cymru
Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwella Ansawdd a Diogelwch Cleifion y GIG

# Rhagymadrodd

**Ein nod yw cefnogi creu'r system iechyd a gofal o'r ansawdd gorau i Gymru fel bod gan bawb fynediad at ofal diogel, effeithiol ac effeithlon yn y lle iawn ac ar yr adeg iawn ar draws y system gofal yn gyfan.**

I wneud hyn rydym yn gweithio ochr yn ochr â sefydliadau i greu'r amodau, meithrin y gallu a gwneud i'r cysylltiadau lle gall gwelliant ffynnu.

Rydym yn uchelgeisiol ynglŷn â'n rôl yn cefnogi'r agenda feiddgar a nodir yn *Cymru Iachach* (2018) sy'n disgrifio dull system gyfan o ymdrin ag iechyd a gofal cymdeithasol. Nawr, yng nghyd-destun y cam hwn o'r pandemig a symud i gyfnod o adfer, mae'n hanfodol bod y gefnogaeth y mae Gwelliant Cymru yn ei chynnig i sefydliadau wedi'i theilwra a'i chyd-destunoli i angen lleol i'w galluogi i ymateb i'r ddyletswydd ansawdd gryfach a gwreiddio'r Ddeddf Ansawdd. Byddwn hefyd yn cefnogi sefydliadau i gyflawni'r wyth blaenoriaeth ar gyfer GIG Cymru a amlinellwyd gan y Gweinidog Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Dyma pam ein bod wedi esblygu ein dull yn un rhaglen newydd: 'Gofal Diogel Gyda'n Gilydd.' Wedi'i hategu gan waith ehangach Gwelliant Cymru, bydd y rhaglen Gofal Diogel Gyda'n Gilydd yn cynnig cefnogaeth bwrpasol i sefydliadau nodi a gwella blaenoriaethau ansawdd a diogelwch.

Rhoi ansawdd a diogelwch uwchlaw popeth arall yw gwerth craidd cyntaf GIG Cymru. Cryfhawyd y ffocws hwn yn fwy diweddar trwy'r *Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru)* (2020), y *Fframwaith Clinigol Cenedlaethol ar gyfer Cymru* (2021) a'r *Fframwaith Ansawdd a Diogelwch* (2021). Gyda'i gilydd, mae'r rhain yn nodi dyhead am wasanaethau iechyd a gofal a arweinir gan ansawdd, wedi'u tanategu gan egwyddorion gofal iechyd darbodus, gofal iechyd seiliedig ar werth a'r nod pedwarplyg.

Mewn ymateb, ac yng nghyd-destun yr heriau ar y cam hwn o'r pandemig a symud i gyfnod adfer, rydym wedi esblygu ein dull i:

- Ddangos ffocws cryfach ar gefnogi sefydliadau i ysgogi eu gwelliannau yn hytrach na rhaglenni cenedlaethol unigol, a chyd-gynllunio ein gwaith gyda nhw.
- Darparu cefnogaeth wedi'i theilwra i uwch arweinwyr, rheolwyr a staff rheng flaen i fynd i'r afael â'u heriau o ran ansawdd a diogelwch yng nghyd-destun y pandemig a newidiadau polisi diweddar.
- Galluogi sefydliadau i wella ansawdd a diogelwch, fel y'u diffinnir gan eu defnyddwyr gwasanaeth, teuluoedd, gofalwyr a'u gweithlu, ac ymgysylltu â nhw mewn agweddau ar ofal ar bob lefel ac ym mhob lleoliad ar draws y continwwm gofal, gan gynnwys gofal sylfaenol.
- Cefnogi sefydliadau i ail-gydbwyso gofal oddi wrth ysbytai a chanolbwyntio ar atal a lleihau niwed cyn ac ar ôl COVID19 ar draws y continwwm gofal.
- Mynd i'r afael â'r elfennau technegol, cymdeithasol a diwylliannol sydd eu hangen i ledaenu ac ehangu gwelliannau mewn unrhyw leoliad.

Trwy weithio mewn partneriaeth â Gwelliant Cymru, cefnogir sefydliadau i gwreiddio'r Ddeddf Ansawdd.

# Ymateb i'r cyd-destun iechyd a gofal ar y cam hwn o'r pandemig

**Rydym wedi darparu cymorth gwella cenedlaethol ar gyfer ansawdd a diogelwch i GIG Cymru ers 2008. Mewn ymateb i Adolygiadau OECD o *Ansawdd Gofal Iechyd: Y Deyrnas Unedig* (2016), yr *Adolygiad Seneddol* (2018) a *Cymru Iachach,* gwnaethom ail-frandio o Gwella 1000 o Fywydau i Gwelliant Cymru ac esblygu ein gwaith.**

Roedd y newidiadau hyn yn rhoi sylfaen gadarn i barhau i ysgogi gwelliant. Fodd bynnag, dros y 18 mis diwethaf mae'r system wedi newid yn sylweddol o ganlyniad i'r pandemig a datblygiadau polisi pellach. Mae sefydliadau yn wynebu'r her o atal a lleihau niwed y gellir ei osgoi cyn ac ar ôl COVID19, yn ogystal ag angen ail-gydio yn a thrawsnewid eu gwasanaethau i sicrhau bod pobl yn derbyn gofal diogel ac o ansawdd uchel bob amser. Gorfododd y pandemig lawer o wasanaethau i esblygu'n gyflym a rhoi arfer arloesol ar waith, ac mae cyfle i adeiladu ar y momentwm hwn.

Mae'r cyfnod hwn wedi rhoi cyfle i ni archwilio heriau ehangach o ran gwella ac wedi ei gwneud hi'n ofynnol i ni esblygu ein ffyrdd o weithio i gefnogi sefydliadau ar y cam hwn o'r pandemig, gan symud i gyfnod adfer a thu hwnt. Mae ein profiad ein hunain, profiad y gymuned wella ryngwladol a llenyddiaeth ddiweddar wedi amlygu y dylai ein cefnogaeth ganolbwyntio ar berchnogaeth leol a'r gallu i wella, ac ehangu'r cwmpas y tu hwnt i'r farn draddodiadol am wella ansawdd.

Yn sail i'n strategaeth mae gwerthfawrogiad ehangach o wyddorau gwella – sy'n golygu ein bod yn cefnogi sefydliadau i drawsnewid trwy ganolbwyntio ar sut y darperir gofal, sut mae gweithwyr iechyd a gofal proffesiynol yn gweithio gyda'i gilydd i ddarparu'r gofal hwnnw, a sut y gall y system iechyd wella darpariaeth gofal a gofal iechyd.

**Mae hyn yn gofyn am ddull newydd ar gyfer gwella sy'n cydnabod:**

- Nad yw gwella ansawdd yn ddigonol ynddo'i hun. Rhaid iddo fod yn rhan o ddull ehangach o reoli ansawdd a gwella diogelwch.
- Yn draddodiadol mae ein cefnogaeth wedi canolbwyntio ar wella yn y rheng flaen. Rhaid i hyn symud i weithio ochr yn ochr ag arweinwyr er mwyn canolbwyntio'n strategol ar wella'r system gyfan ac er mwyn galluogi gwelliant a rheolaeth yn y rheng flaen.
- Rhaid i welliant oresgyn y 'gagendorau' sy'n rhwystro lledaeniad ac ehangiad syniadau newydd ac arferion effeithiol i sicrhau trawsnewidiad system gyfan.

# Ein blaenoriaethau strategol

## Er mwn cyflawni ein nod, mae gennym dair blaenoriaeth strategol:

- Cefnogi sefydliadau iechyd a gofal i ail-gynllunio a gwella'n barhaus y gwasanaeth y maen nhw'n ei ddarparu.
- Cefnogi ffocws ar leihau niwed y gellir ei osgoi a diogelwch o fewn systemau gofal.
- Adeiladu'r gallu ar gyfer gwelliant yn y system iechyd a gofal yn gynaliadwy.

Rydym yn gyfarwyddiaeth o fewn Iechyd Cyhoeddus Cymru, ac yn ein gwaith rydym yn cynnal gwerthoedd sefydliadol Iechyd Cyhoeddus Cymru yn barhaus – i 'weithio gyda'n gilydd, gydag ymddiriedaeth a pharch, i wneud gwahaniaeth'. Rydym yn mesur y cynnydd a wnawn yn erbyn y gwerthoedd hyn a'r blaenoriaethau uchod.

Ein rôl yw hyfforddi a chefnogi sefydliadau i wneud gwelliannau parhaus a chynaliadwy. Rydym yn gweithio ochr yn ochr â sefydliadau i ddefnyddio offer, technegau a methodolegau seiliedig ar dystiolaeth i wella sawl llwybr ar draws y continwwm gofal. Er mwyn sicrhau bod gwelliannau'n cael eu cynnal a'u bod yn systematig, rydym yn gweithio gyda sawl haen o fewn sefydliadau i ganolbwyntio ar y cylch ansawdd cyfan – o gynllunio i wella a rheoli.

Trwy sicrhau ein bod yn gweithio'n lleol ac ar bob lefel yn y system rydym mewn sefyllfa dda i ddeall y cyd-destun a'r heriau sy'n wynebu sefydliadau, a gallwn ddarparu cefnogaeth a hyfforddiant yn fwy effeithiol i ysgogi gwelliant.

# Ein rhaglen newydd: Gofal Diogel Gyda'n Gilydd

**Er mwyn ein galluogi i gyflawni ein blaenoriaethau strategol rydym yn dod â'n holl gefnogaeth i mewn i un rhaglen newydd ar gyfer y system iechyd a gofal. Enw'r cynnig hwn yw Gofal Diogel Gyda'n Gilydd a dyma ein rhaglen waith a gydlynir yn genedlaethol ac a ddarperir yn lleol. Gall pob bwrdd iechyd ac ymddiriedolaeth ymuno ynddi.**

Mae Gofal Diogel Gyda'n Gilydd yn galluogi sefydliadau i wella ansawdd a diogelwch gofal ar draws eu systemau. Trwy ymuno â'r rhaglen, bydd sefydliadau'n cael cyfle i weithio gyda Gwelliant Cymru i wneud gwelliannau i'w blaenoriaethau diogelwch cleifion a'r gwahanol elfennau o lwybrau cleifion sy'n effeithio ar ddiogelwch ac sy'n cael eu heffeithio ganddynt a heriau'r pandemig.

Rydym yn canolbwyntio ar gefnogi sefydliadau ar lefel leol i gyflawni blaenoriaethau cenedlaethol. Gyda'n gilydd gallwn sicrhau gwell canlyniadau mewn meysydd diogelwch allweddol ledled y system fel cwympiadau, briwiau pwysau, diogelwch meddyginiaethau, atal a rheoli heintiau, dirywiad aciwt, a chymhlethdodau llawfeddygol. Rydym yn dod â chyfres o alluogwyr seiliedig ar dystiolaeth ynghyd i brofi, lledaenu ac ehangu ymyriadau yn y meysydd diogelwch hyn.

Byddwn yn parhau i ddatblygu'r rhaglen hon a'r meysydd blaenoriaeth i ddiwallu anghenion newidiol y sefydliadau rydym yn gweithio gyda nhw dros amser. Wrth wneud hyn, byddwn yn sicrhau ein bod yn ymgysylltu ac yn cynnwys y rheini sy'n darparu gwasanaethau yn ogystal â'r rhai sy'n eu cyrchu.

Mae tair elfen i'r rhaglen Gofal Diogel Gyda'n Gilydd sy'n cefnogi sefydliadau â'u blaenoriaethau i wella ansawdd a diogelwch – yn fertigol trwy strwythur y sefydliad ac yn llorweddol ar draws y continwwm gofal:

1. Datblygu dull sefydliadol ar gyfer sicrhau canlyniadau o ansawdd
2. Lledaenu ac ehangu gofal diogel
3. Ymgyrch newid ymddygiad.

## 1. Datblygu dull sefydliadol ar gyfer sicrhau canlyniadau o ansawdd

Mae ansawdd y system gyfan yn gofyn am arweinyddiaeth drawsnewidiol sydd ag ansawdd wrth wraidd ei ddull strategol ar gyfer rheoli'r sefydliad. Mae'r *Fframwaith Ansawdd a Diogelwch* (2021) yn nodi'r dyhead am wasanaeth iechyd a gofal a arweinir gan ansawdd, gyda'r angen i sefydliadau weithredu o fewn system rheoli ansawdd effeithiol.

Mae ein dull sefydliadol newydd ar gyfer sicrhau canlyniadau ansawdd yn cymryd dysgu gan sefydliadau sy'n perfformio'n dda ac yn canolbwyntio ar gryfhau dull system gyfan ar gyfer ansawdd. Yn sail iddo mae'r fethodoleg "Ansawdd fel Strategaeth Sefydliadol" ac mae'n gweithio gydag arweinwyr system i nodi eu blaenoriaethau ansawdd a diogelwch strategol ar gyfer gwella, ac adeiladu ar ac alinio eu gallu i wella yn y blaenoriaethau hyn.

Byddwn yn darparu cefnogaeth a gydlynir yn genedlaethol ac a ddarperir yn lleol i dimau gweithredol i archwilio sut y maen nhw'n arwain ar gyfer ansawdd a sut mae hyn i'w weld fel strategaeth ac athroniaeth trwy'r sefydliad. Mae'n tynnu ar, ac yn darparu mynediad at, arweinwyr a gydnabyddir yn rhyngwladol o systemau sy'n perfformio'n dda i ddarparu cefnogaeth a dysgu i arweinwyr iechyd a gofal yng Nghymru. Mae hyn yn galluogi timau gweithredol i wreiddio dull system rheoli ansawdd trwy eu sefydliadau yn gyfan.

## 2. Lledaenu ac ehangu gofal diogel

Gan adeiladu ar y dysgu o'r Fenter Cleifion Mwy Diogel a'r Ymgyrch 1000 o Fywydau, rydym yn darparu cefnogaeth ddwys i sefydliadau ar gyfer eu blaenoriaethau diogelwch lleol gan ddefnyddio Hanfodion Gofal Diogel Gwelliant Cymru.

Mae'r Hanfodion Gofal Diogel yn cyfuno galluogwyr ac offer seiliedig ar dystiolaeth i leihau amrywiad a chynyddu dibynadwyedd mewn prosesau gofal a mynd i'r afael â'r tagfeydd sy'n effeithio ar ddiogelwch ac sy'n cael eu heffeithio ganddynt a heriau'r pandemig. Mae'n cynnig pecyn ymarferol o alluogwyr diogelwch seiliedig ar dystiolaeth y gellir eu defnyddio ar draws y continwwm gofal:


1. Prosesau gofal diogel a dibynadwy
2. Arweinyddiaeth drawsnewidiol ar gyfer gofal diogel
3. Diwylliant a sgiliau gwaith tîm ar gyfer gofal diogel
4. Cyfathrebu ar gyfer gofal diogel
5. Gofal diogel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Rydym yn gweithio gyda sefydliadau i gymhwyso'r galluogwyr hyn er mwyn gwneud y gwelliannau ym meysydd ansawdd a diogelwch sy'n bwysig iddyn nhw ar draws y system, ac yn cefnogi gwreiddio gwelliannau clinigol a gweithredol seiliedig ar dystiolaeth mewn meysydd fel cwympiadau, briwiau pwysau, diogelwch meddyginiaethau, atal a rheoli heintiau, dirywiad aciwt, a chymhlethdodau llawfeddygol.

Gan ddefnyddio Fframwaith Cyflenwi Gwelliant Cymru, mae sefydliadau'n derbyn hyfforddiant dwys wedi'i deilwra i gefnogi lledaeniad ac ehangder y gwelliannau. Mae setiau dysgu cenedlaethol yn ategu'r gefnogaeth leol ddwys, yn ogystal â chyfres o ddosbarthiadau meistr i ddarparu cyfleoedd i rannu dysgu, ehangu gwelliannau yn gyflym ac annog dull "Unwaith i Gymru".

## Ein Fframwaith Cyflenwi

Mae'r Fframwaith Cyflenwi yn adeiladu ar ein profiad ni a phrofiad rhyngwladol a llenyddiaeth i ganolbwyntio ar oresgyn y 'gagendorau' sy'n rhwystro lledaeniad ac ehangiad syniadau newydd ac arferion effeithiol i wella gofal. Mae'n cynnig proses systematig, ailadroddadwy sy'n addasu i anghenion penodol pob cyd-destun gofal iechyd ac yn cydnabod bod angen gwahanol alluoedd gwella, arddulliau arwain, arddulliau a dulliau cyfathrebu, a systemau mesur i gyflawni lledaeniad ac ehangiad. Mae'r galluogwyr hyn yn rhoi'r sylfeini ar gyfer yr Hanfodion Gofal Diogel.




Rydym yn hwyluso newid trwy ddefnyddio'r Fframwaith Cyflenwi a gweithio ar safleoedd ochr yn ochr â thîm gwella sefydliad i heidio at broblemau a chymryd agwedd "ystafell ryfel", gyda'r nod o brofi newid yn gyflym. Rydym yn gweithio gyda sefydliadau i symud o ddiffinio problemau, i gynllunio a phrofi datrysiadau, i welliannau parhaus sy'n dod yn arfer pob dydd gan staff rheng flaen.

## 3. Ymgyrch newid ymddygiad

Mae ein hymgyrch newid ymddygiad yn ymgysylltu â staff iechyd a gofal ar bob lefel gan ddefnyddio dull “calonnau a meddyliau” i greu mudiad ar gyfer ansawdd, diogelwch a gwelliant.


Mae’r ymgyrch wedi’i harwain gan fewnwelediad, gan gydnabod y gall newid ymddygiad pobl fod yn anodd ac yn gymhleth ac yn aml mae’n cymryd amser hir. Mae’n defnyddio ymyriadau medrus wedi’u targedu i ysbrydoli ac annog staff iechyd a gofal i symud o ymwybyddiaeth i ymddygiadau newydd. Ein nod yw meithrin yr ewyllys i wella gofal diogel ar draws maes iechyd a gofal yng Nghymru.

Ategir yr ymgyrch gan gynhadledd genedlaethol flynyddol Gwelliant Cymru a chyfres o seminarau sy’n canolbwyntio ar wella a diogelwch.

# Sut rydym yn gweithio

**Rydym wedi ymrwymo i ddatblygu Gwelliant Cymru i alluogi ein pobl i weithio ar eu gorau. Rydym yn dwyn ynghyd yr egni, y profiad a'r arbenigedd i gefnogi ein cydweithwyr sy'n ceisio gwella eu gwasanaethau ar draws y system iechyd a gofal. Rydym yn ymdrechu i weithio mewn ffordd sy'n cyflawni ein gwerthoedd a'n nod yw gwella popeth a wnawn yn barhaus.**

Rydym yn gweithio ar y cyd â sefydliadau i adeiladu ar eu gwaith presennol a darparu:




Rydym yn darparu cefnogaeth i sefydliadau trwy dimau rhanbarthol sydd ag arbenigedd a gwybodaeth mewn ansawdd a diogelwch. Ar gyfer pob sefydliad a gefnogir gennym, rydym yn datblygu cytundeb a chynllun gwaith sy'n cael ei adolygu'n rheolaidd. Lle bo modd, rydym yn cydlynu dysgu ac arfer da yn gydweithrediadau cenedlaethol i sicrhau synergedd â blaenoriaethau cenedlaethol.

Llywodraethir ein gwaith gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ac rydym hefyd yn adrodd bob chwarter i bob sefydliad ac i Lywodraeth Cymru er mwyn sicrhau goruchwyliaeth gadarn a bod ein cefnogaeth yn cyd-fynd â blaenoriaethau cenedlaethol a lleol.

## Mae gan Gwelliant Cymru sawl swyddogaeth sy'n gweithio gyda'i gilydd i gyflawni ein blaenoriaethau strategol:

- **Academi:** Mae'r Academi yn dwyn ynghyd ein holl ddatblygiad sgiliau, hyfforddiant a chanllawiau gwella. Mae'n ei gwneud hi'n haws i ddysgu, ymarfer a chyflawni gwelliant, ac mae'n rhoi'r gwreiddiau a'r cysylltiadau cryf ar gyfer gwella ar draws y system.
- **Dadansoddeg:** Mae ein tîm Dadansoddeg yn sicrhau bod data a gwybodaeth yn sail i'n holl waith trwy gydol cylch bywyd dysgu, profi a lledaenu ac ehangu. Mae'n defnyddio technegau dadansoddol effeithiol i sicrhau y darperir gwelliannau a alluogir gan ddata.
- **Rhaglen:** Mae'r Rhaglen – 'Gofal Diogel Gyda'n Gilydd' – yn hyfforddi sefydliadau, eu gwasanaethau a'u timau i brofi a hwyluso newid ar draws y continwwm gofal, o ofal sylfaenol i ofal trydyddol. Gan weithio'n genedlaethol ac yn lleol, mae'r tîm yn cefnogi sefydliadau iechyd a gofal i adeiladu a chynnal gwasanaethau diogel a dibynadwy o ansawdd uchel.
- **Strategaeth ac Arloesi:** Mae'r tîm Strategaeth ac Arloesi yn arwain datblygiad ein cynlluniau strategol i weithredu, gwella ac arloesi fel bod ein cefnogaeth yn diwallu anghenion sefydliadau iechyd a gofal yng Nghymru. Mae'r tîm yn gweithio'n agos â rhanddeiliaid allweddol yn lleol ac yn genedlaethol i esblygu ein dull yn barhaus.

# Ein rhanddeiliaid

## Er mwyn cyflawni ein nod a'n blaenoriaethau strategol, rydym yn gweithio gyda nifer o unigolion a sefydliadau:

- **Llywodraeth Cymru** i gynnig arbenigedd gwella er mwyn llywio canllawiau a rhaglenni cenedlaethol.
- **Timau gweithredol** i gefnogi eu blaenoriaethau ar gyfer gwella – wedi'u gosod yn genedlaethol gan Lywodraeth Cymru neu'n lleol gan dimau gweithredol.
- **Rheolwyr, clinigwyr a staff rheng flaen** i ddiffinio a phrofi newidiadau yn eu sefydliadau y gellir eu hehangu a'u lledaenu i drawsnewid system gyfan.
- **Sefydliadau** i ddod â nhw at ei gilydd i weithio ar broblem gyffredin, rhannu dysgu a lledaenu arfer da.
- **Rhwydweithiau cenedlaethol, partneriaid a sectorau eraill** i gynghori a chyd-gynllunio gwaith gwella.
- **Arbenigwyr gwella rhyngwladol** i ddarparu arbenigedd ychwanegol er mwyn cynllunio a chyflenwi ein rhaglenni.
- **Academia** i ddarparu cefnogaeth seiliedig ar dystiolaeth a gwireddu piblinell o syniadau a mentrau arloesi.
- **Q Lab Cymru** (menter i wella iechyd a gofal i bobl yng Nghymru) yw partneriaeth rhwng Gwelliant Cymru a Q, gyda chyllid gan y Sefydliad Iechyd.

# Sut y byddwn yn gwybod ein bod wedi gwneud gwahaniaeth?

## Rydym yn gweithio gyda sefydliadau iechyd a gofal i'w galluogi i sicrhau gwelliannau ar draws y system yn y nod pedwarplyg.

Mesurir effaith ein cefnogaeth trwy'r canlynol:

- **Canlyniadau Iechyd** – Mae sefydliadau sy'n gweithio gyda ni yn sicrhau canlyniadau cynaliadwy rhagorol yn y chwe pharth ansawdd.
- **Profiad o weithio gyda ni** – Nifer cynyddol o sefydliadau yn cymryd rhan weithredol mewn gwaith gwella gyda ni a phrofiad cadarnhaol cynyddol o weithio gyda ni.
- **Profiad o weithio i ni** – Profiad cadarnhaol cynyddol o weithio i ni.

Yn sail i'n holl waith mae strategaeth fesur Gwelliant Cymru a chynllun gweithredol manylach, sydd wedi'i gyd-gynllunio â sefydliadau.

Ein huchelgais yw y byddwn, erbyn mis Mawrth 2026, wedi galluogi:

- Trawsnewid mewn canlyniadau diogelwch cenedlaethol trwy welliannau amlwg a mesuradwy ar lefel system mewn ansawdd a diogelwch.
- Sefydliadau i gyflawni dull aeddfed a chynaliadwy o feithrin eu gallu i wella a'i gymhwyso i'w blaenoriaethau ansawdd a diogelwch lleol.
- Sefydliadau a gefnogir i wreiddio'r Ddeddf Ansawdd yn eu holl waith.
- Cymru i fod yn rhan annatod o ddull gwella'r DU ar gyfer diogelwch.
- Gwelliannau effeithiol i'w gweld trwy werthuso mewnol ac allanol.

## Gallwch gael y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau trwy fynd i'n gwefan a chofrestru i dderbyn ein e-gylchlythyr misol:

www.improvement.cymru

## Gallwch hefyd ein dilyn ar gyfryngau cymdeithasol:

Dilynwch ni ar Twitter @ImprovementCym

Hoffwch ni ar Facebook

Tanysgrifiwch i ni ar YouTube

Cysylltwch â ni ar ein tudalen LinkedIn


## Gwelliant Cymru

Rhif 2 Capital Quarter
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ



**© Gwelliant Cymru 2021**



Cyhoeddwyd Medi 2021



Mae'r ddogfen hon wedi'i thrwyddedu o dan Creative Commons Attribution-NonCommercial-NoDerivatives 4.0 International (CC BY-NC-ND 4.0). Mae hyn yn caniatáu ar gyfer copïo ac ailddosbarthu'r ddogfen hon cyn belled â bod Gwelliant Cymru yn cael ei gydnabod yn llawn ac yn cael credyd. Rhaid peidio ag ailgymysgu, trawsnewid nac adeiladu ar y deunydd mewn unrhyw ffordd. I weld copi o'r drwydded hon, ewch i https://creativecommons.org/licenses/by-nc-nd/4.0/